

Y pwysigrwydd o ymarfer myfyriol fel ymarferydd proffesiynol

Beth yw ymarfer myfyriol?

Mae ymarfer myfyriol yn golygu, myfyrio ar beth rydych chi'n ei wneud. Mae yna gysylltiad agos rhyngddo â'r cysyniad o ddysgu o brofiad gan eich bod yn meddwl am beth wnaethoch, beth ddigwyddodd ac wedyn penderfynu beth fydddech chi'n ei wneud yn wahanol y tro nesaf. Yn ôl John Dewey (2003) *'we do not learn from experience, we learn from reflecting on experience,'* sydd eto yn golygu edrych nol ar ein gwaith a gweld sut bydden yn newid hyn yn y dyfodol. Un o'r ffordd fwyaf effeithiol o fyfyrio yw gofyn cwestiynau i'ch hyn fel, 'beth wnes i ddysgu,' 'beth aeth yn dda,' 'beth aeth yn wael,' a 'beth gallaf wedi bod yn wahanol.' Mae rhai ymarferydd yn gweld hi'n fuddiol i gofnodi eich atebion fel gallwch gofio yn y dyfodol. Gall myfyrio helpu ymarferydd i fod yn fwy creadigol a rhoi cynnig ar bethau newydd, sydd yn wych mewn lleoliad y blynyddoedd cynnar oherwydd gallwch gynnwys hobiau a diddordebau'r plentyn mewn i'r gweithgaredd nesaf. Dwedodd Dr Claire Warden (2019), *'by listening to children and identifying their interests, you can create a unique learning opportunity that excites and interests them.'*

Damcaniaeth; Donald Schon.

Credodd Donald Schon bod myfyrio yw'r gallu o bobl broffesiynol i feddwl beth maen nhw'n ei wneud tra maen nhw'n ei wneud e. adolygodd ymddygiadau nifer o wahanol weithwyr proffesiynol gan gynnwys athrawon, meddygon a pheirianwyr. Fe wnaeth Donald Schon cyfraniad rhyfeddol i'n dealltwriaeth o'r theori a'r arfer o ddysgu. Mae damcaniaeth Schon ar ymarfer myfyriol yn cynnwys 'reflection in action' a 'reflection on action'. Gan ddefnyddio 'reflection in action' mae angen ystyried y sefyllfa, penderfynu sut i weithredu ac wedyn gweithredu ar unwaith. Mae'r ochr yma o'i ddamcaniaeth yn cynnwys edrych ar ein profiadau, cysylltu â'n teimladau a mynychu at ein damcaniaethau sy'n cael eu defnyddio. Mae'n golygu meddwl am y digwyddiad tra mae'n digwydd a sut rydych yn ymateb. Nid yw'r ymarferydd sy'n profi hyn yn dibynnu ar ymchwil neu theori a thechnegau sydd wedi sefydlu ymlaen llaw, ond yn adeiladu rhywbeth newydd ar gyfer pob achos penodol. Mae ymarferydd yn gwneud hyn pob dydd help sylwi pryd bynnag maen nhw'n dod ar ddraws rhywbeth newydd, er enghraifft os nad yw plentyn yn ddeall gweithgaredd ymarferol penodol, byddwch yn newid y gweithgaredd tan fod y plentyn yn ddeall.

Ymarfer myfyriol yn y gweithle blynyddoedd cynnar a pham mae'n bwysig?

Yn ôl Aistear (2009), *"Reflective practice involves adults thinking about their work with children and planning and implementing the curriculum to best support the children's interests and strengths. Observing, listening and discussing with colleagues are key components of reflective practice."* Mae ymarfer myfyriol yn golygu hefyd meddwl yn ddwfn am ddiddordeb, digwyddiad neu ymarfer o wahanol safbwyntiau. Gan fyfyrio ar ein harfer, gall ymarferydd hunan wella a datblygu ei sgiliau. Gallwn ddatblygu fel ymarferwyr pan fyddwn yn dysgu o'n myfyrdodau a chael mewnwelediad. Mae ymarfer myfyriol hefyd yn gallu helpu ymarferwyr y blynyddoedd cynnar i ddeall y plentyn yn well a sut gallant uniaethu â nhw. Fel ymarferydd proffesiynol, meddyliwch am eich gwaith ac yna ystyriwch y cryfderau a'r gwendidau. Mae'n pwysig i adolygu eich gwaith i wella ansawdd eich ymarfer, adnabod a datrys problemau ac i weld yr effaith mae eich gweithredoedd wedi gwneud ar y plant. Dwedodd Marbina (2010) *'research shows that reflective practise makes a positive difference for children, families, and communities by improving the overall quality of educators' work.* Mae yna lot o bethau gallwch fyfyrio arno er enghraifft, sut rydych chi'n adeiladu ar ddysgu plant? Sut rydych yn ymateb i adborth? Sut rydych chi'n gwrandao ar syniadau'r plant a beth fyddwch chi'n ei wneud gyda nhw?

Mae ymarfer myfyriol yn y gweithle blynyddoedd cynnar yn bwysig oherwydd mae'n cwrdd ag anghenion y plentyn. Nid oes unrhyw ddau blentyn yn gweithio ar yr un cyflymder, felly mae ymarfer myfyriol ac addasol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn y dosbarth yn cael ei gefnogi a'i herio i adeiladu sylfeini cryf ar gyfer dysgu gydol oes. Mae ymarfer myfyriol yn arf amhrisiadwy i ddefnyddio mewn bywyd personol a phroffesiynol.

Mae 'reflection on action' yn golygu myfyrio ar sefyllfa ar ôl iddo ddod i ben. Mae angen i ymarferydd meddwl am y digwyddiad sut ymatebodd nhw a beth y gellid bod wedi ei wneud yn well i wella. Hefyd, beth wnaethant nhw ddysgu iddyn nhw gael defnyddio mewn achosion eriall. Gallwn wneud hyn gan fyfyrion ar beth oedd y cryfderau ar wendidau. Gallwch hefyd dewis i ymchwilio ymhellach i ddysgu mwy. Mae 'reflection on action' hefyd yn cynnwys sut roeddech yn ei deimlo a'i feddwl yn ystod yr adeg benodol sydd newydd ddigwydd.

Gibbs 'Reflective cycle'

Datblygwyd 'Gibbs reflective cycle' gan Dr. Graham Gibbs ym 1988. Yn ôl Gibbs (1988), dyma fframwaith sy'n rhoi strwythur i'r broses o ddysgu trwy brofiad gan ddefnyddio chwech cam; disgrifiad, teimladau, gwerthuso, dadansoddi, casgliadau a chynllun gweithredu. Mae model Gibbs yn ffordd dda o weithio drwy brofiad. Gall hyn fod profiad annibynnol neu sefyllfa rydych chi'n profi'n aml. Yn ystod y cam disgrifiad rydych yn meddwl am beth ddigwyddodd yn ystod eich profiad. Dylech feddwl am bryd a ble digwydded hyn, pwy oedd yn bresennol a beth wnaeth pob person. Mae'r cam teimladau yn golygu dylwch meddwl am yr emosiynau a defnyddiodd hi ac eraill. Gofynnwch eich hun sut teimlodd chi cyn y brofiad, yn ystod y brofiad ac ar ôl y brofiad. Hefyd, meddyliwch am sut roedd pobl eraill yn ei deimlo. Y trydydd cam yw gwerthuso. Dyma ble chi'n llunio barn ar gyfer yr agweddau cadarnhaol a negyddol a digwyddodd. Beth aeth yn dda? Beth aeth yn wael? Nesaf yw'r dadansoddi ble byddwch yn defnyddio'r wybodaeth rydych wedi casglu eich hunan ynghyd â gwybodaeth o bobl eraill er enghraifft, theori, ymchwil a safbwynt pobl eraill. Y cwestiynau dylai ymarferydd gofyn i'w hunain yw a wnaeth safbwynt eraill gyd-fynd â'i rhai ei hunain? Hefyd, sut wnaeth hyn cyd-fynd gyda theori? Nesaf yw casgliadau. Fe wnaeth Gibbs torri'r cam yma mewn i gasgliadau cyffredinol a chasgliadau penodol. Mae casgliadau penodol yn cysylltu i ein profiad personol, ymarfer ac ein datblygiad. Dyma ble fydd ymarferydd yn gofyn beth wnaethant nhw ei ddysgu yn ystod ei brofiad a sut gallwn wedi gwella'r perfformiad. Gall meddwl am ba gyfleoedd dysgu a datblygu gall cryfhau ei berfformiad. Y cam olaf yw cynllun gweithredu ble bydd yr ymarferydd yn meddwl am beth fyddan nhw'n ei wneud yn wahanol y tro nesaf a sut byddant yn cael gwybodaeth bellach.

Mae model Gibbs yn tanategu llawer o fodelau eraill. Mae'n cynnig dull strwythuredig o ddysgu arbrofol ac yn fodel syml i ddysgu ar gyfer unigolion sydd yn newydd i ymarfer myfyriol. Mae'n eich helpu i ddatblygu barn fwy cytbwys a chywir. Mae'r model yma hefyd yn caniatáu i ymarferydd dysgu dros amser yn seiliedig ar eich profiadau. Mae'r rhan fwyaf o weithwyr y blynyddoedd cynnar yn cymryd rhan mewn ymarfer myfyriol. Mae hyn yn digwydd wrth iddyn nhw wneud penderfyniadau i'r hyn sy'n digwydd yn ystod y dydd neu'r sesiwn. Maen nhw'n adeiladu ar ddarganfyddiadau'r plant trwy ychwanegu deunydd newydd.

Maen nhw'n ymestyn meddylfryd myfiwyr trwy ofyn cwestiynau neu awgrymu ffordd arall o ddioli problem. Nid oedd Dr. Graham Gibbs yr unig berson i greu 'reflective cycle model.' Fe wnaeth David Kolb (1984) creu un ei hunain. Mae 'reflective cycle' Kolb yn fodel sy'n tynnu sylw at bwysigrwydd yr elfen fyfyrion mewn dysgu trwy brofiad gan ddefnyddio 4 cam sef; profiad pendant (teimlad) sydd yn golygu ail-ddehongli'r profiad presennol. Arsylwi myfyriol (gwyltio), sydd yn golygu myfyrio ar y profiad. Cysyniadau haniaethol (meddwl), sydd yn golygu dysgu o'r profiad. Ac arbrofi gweithredol (gwneud), sydd yn golygu cynllunio ar beth oeddech wedi dysgu. Mae hyn yn effeithiol gan ei fod yn cynnwys pedwar arddulliau dysgu gwahanol ac mae pawb yn dysgu yn wahanol.

Mae'r ddau 'reflective cycle' yn cael ei ddefnyddio mewn sefyllfaoedd dysgu. Cyflwynodd David Kolb ei fodel ar gyfer addysgwyr i adolygu eu haddysgu ac ar gyfer datblygiad parhaus. Fe wnaeth Dr. Graham Gibbs creu ei fodel i ddarparu strwythur i ddysgu o brofiad.

Sut I ddefnyddio ymarfer myfyriol mewn gweithle blynyddoedd cynnar?

Gan fod yn ymwybodol o rywbeth sy'n ymddangos yn deilwng o feddwl amdano'n ddyfnach naill ai'n unigol neu gydag eraill, yw'r cam cyntaf mewn ymarfer myfyriol. Gall digwyddiadau cadarnhaol a phethau sy'n poeni addysgwyr digwydd pob dydd. Gall cefnogaeth gan addysgwyr mwy profiadol helpu eraill i adnabod pryd mae angen iddynt fod yn ymwybodol. Ar ôl bod yn ymwybodol o rywbeth sy'n ynglŷn, mae addysgwyr adfyfyriol yn dadansoddi'r mater trwy fyfrio arno er mwyn cael dealltwriaeth ddyfnach. Gan gael perspectif pobl eraill gofyn cwestiynau 'pam' a darllen yn ymwneud â'r mater yn cefnogi'r broses dadansoddi. Mae ymarfer myfyriol yn gofyn am ryw fath o ymateb neu weithredu. Gan ddeall mater neu rywbeth o ddiddordeb proffesiynol yn glirach yn helpu addysgwyr i gymryd camau priodol nail ai ar y cyd neu'n unigol ac yn aml mewn cydweithrediad â phlant a theuluoedd neu weithwyr proffesiynol eraill. Mae addysgwyr yn asesu canlyniadau'r camau a gymerwyd o ganlyniad i'r broses myfrio i sicrhau bod y camau gweithredu yn fwriadol yn gwella arfer a chanlyniadau. Gall hyn cynnwys gwirio gyda theuluoedd neu blant sut y maent yn profi'r newidiadau a dogfennu ei hymatebion er mwyn llywio penderfyniadau pellach.

Mae yna amrywiaeth o strategaethau, offer ac adnoddau i gefnogi ymarfer myfyriol unigol. Gan gadw llyfr nodiadau mae'n cefnogi dogfennu'r broses ymarfer fyfyriol. Gall y nodiadau cynnwys yr hyn a digwyddodd, pam, pwy gymerodd rhan, pwyntiau allweddol o'r drafodaeth, y camau a gymerwyd a'r canlyniadau. Mae'n pwysig i fyfrio gyda phalnt bob dydd trwy ddefnyddio cwestiynau 'y'n parchu eu syniadau a'u dysgu. Gallwch cynnwys cwestiynau fel, 'beth dysgoch chi heddiw?' 'Beth ydych chi eisiau dysgu mwy amdano?'

Casgliad:

I gloi, gan edrych ar y papur briffio yma gall ymarferydd blynyddoedd cynnar dechrau myfrio ei waith. Dylai ymarfer myfyriol bod yn ymarfer parhaus drwy gydol ein gyrfa blynyddoedd cynnar. Gall ymarferydd sy'n myfrio gwella ei arferion proffesiynol ei hunain. Mae ymarfer myfyriol yn gwthio athrawon ac ymarferydd proffesiynol eraill i ddiweddarau ei chynlluniau gwersi er mwyn cyrraedd anghenion personol y myfyrwyr. Pob blwyddyn mewn gweithle blynyddoedd cynnar, mae plant yn newid felly bydd ganddynt anghenion gwahanol. Gan werthuso ein dulliau addysgu, mae'n ein helpu i gadw pob myfyriwr mewn cyswllt.

/entity/gennaro-Cuofano (2022) *What is Gibbs' reflective cycle? the Gibbs' reflective cycle in a Nutshell*, FourWeekMBA. What is The FourWeekMBA. Available at: <https://fourweekmba.com/gibbs-reflective-cycle> (Accessed: October 25, 2022).

3, F.Y.A. (2019) *Reflective practice: What is reflection, why should it inform our practice and what does it involve?*, The Foundation Stage Forum Ltd. Available at: <https://eyfs.info/articles.html/teaching-and-learning/reflective-practice-what-is-reflection-why-should-it-inform-our-practice-and-what-does-it-involve-r256/> (Accessed: October 23, 2022).

byinfed.org, P. (2021) *Donald Schon (schön): Learning, reflection and change*, infed.org. Available at: <https://infed.org/donald-schon-learning-reflection-change/> (Accessed: October 22, 2022).

CCC, longford (2017) *Reflective practice in the early years*, Longford Childcare Committee. Available at: <https://longfordchildcare.ie/reflective-practice-early-years/> (Accessed: October 22, 2022).

Gibbs' reflective cycle (1970) The University of Edinburgh. Available at: <https://www.ed.ac.uk/reflection/reflectors-toolkit/reflecting-on-experience/gibbs-reflective-cycle> (Accessed: October 25, 2022).

Gibbs reflective cycle (no date) StudyPrism. Available at: <https://studyprism.co.uk/reflective-practice/models/gibbs-reflective-cycle/> (Accessed: October 26, 2022).

Houghton, K. (2020) *Do you need to reflect on your early years practice?*, Early Years Staffroom. Available at: <https://www.earlyyearsstaffroom.com/reflective-practise-aspects-early-years-important-reflect> (Accessed: October 20, 2022).

Kelly et al. (2016) *Reflective practice, Early Years Careers*. Available at: <https://www.earlyyearscareers.com/eyc/latest-news/reflective-practice/> (Accessed: October 23, 2022).

Merrick, B. (2022) *Reflective practice, Early Education*. Available at: <https://early-education.org.uk/reflective-practice/> (Accessed: October 20, 2022).

on, P. and Warden, C. (2021) *How to effectively reflect, record and engage children*, The Spoke – Early Childhood Australia's Blog. Available at: <http://thespoke.earlychildhoodaustralia.org.au/effectively-reflect-record-engage-children/> (Accessed: October 23, 2022).

Reflective practice toolkit: What is reflective practice? (no date) LibGuides. Available at: <https://libguides.cam.ac.uk/reflectivepracticetoolkit/whatisreflectivepractice> (Accessed: October 13, 2022).

Schon's reflective model (no date) *Critical Studies*. Available at: <https://cbuhagiar2017.weebly.com/critical-thinking/schons-reflective-model> (Accessed: October 23, 2022).

Schon's reflective model (no date) *NursingAnswers.net*. Available at: <https://nursinganswers.net/reflective-guides/schon-reflective-model>. (Accessed: October 23, 2022).

Sethmini (2021) *What is the difference between Kolb and Gibbs reflective cycle, Compare the Difference Between Similar Terms*. Differencebetween.com. Available at: <https://www.differencebetween.com/what-is-the-difference-between-kolb-and-gibbs-reflective-cycle/> (Accessed: October 26, 2022).

Sheryl Third, R.E.C.E.E.C.E.C. (2022) *3.3 Donald Schon, Reflective Practice in Early Years Education*. Fanshawe College Pressbooks. Available at: <https://ecampusontario.pressbooks.pub/reflectivepracticeinearlyyears/chapter/3-3-donald-schon/> (Accessed: October 22, 2022).

Smith, C. (2022) *Gibbs reflective cycle: Feel the benefit of experiential learning, Making Business Matter*. Available at: <https://www.makingbusinessmatter.co.uk/gibbs-reflective-cycle/> (Accessed: October 26, 2022).